Senedd Cymru
**Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc**

# Fi,
# Fy Ardal i,
# Fy Llais i.



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Gwybodaeth am y pecyn hwn ar gyfer athrawon/rhieni:

Yn y pecyn hwn mae amrywiaeth o dasgau y gellir eu gwneud gartref neu yn rhywle heblaw lleoliad addysgol. Nod y pecyn yw addysgu pobl ifanc rhwng 11 ac 14 oed am waith Senedd Cymru, a elwir yn gyffredin y Senedd, mewn ffordd greadigol a newydd.

Gallwch wneud un dasg, un adran neu hyd yn oed y llyfryn adnoddau cyfan yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae modd gwneud rhai gweithgareddau yn y pecyn hefyd fel grŵp dosbarth neu fel teulu.

**Adrannau'r pecyn adnoddau:**


**Adran A: Hanes y Senedd**
Tasg 1. Fideo llinell amser (gwyliwch y fideo i ateb y cwis)
Tasg 2: Cwis ar Kahoot

**Adran B: Pwerau'r Senedd**
Tasg 1. Oeddet ti'n gwybod?
Tasg 2. Mapio fy ardal i

**Adran C: Aelodau o'r Senedd**
Tasg 1. Cysylltu â dy Aelod o'r Senedd
Tasg 2. Ysgrifennu deiseb

**Adran D: Defnyddio dy lais**
Tasg 1. Gwneud dy ddeiseb yn fyw!
Tasg 2. Rhagor o wybodaeth

**Mae llawer o'r eiconau hyn yn y llyfryn. Pan fyddi di'n gweld hwn, mae'n golygu bod yna ffaith hwyl i'w darllen!**



# **Adran A:**
# Hanes y Senedd

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae datganoli wedi newid yng Nghymru. Mae mwy o benderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau bob dydd pobl bellach yn cael eu gwneud yng Nghymru, yn y Senedd. Dyna pam y gwnaethon ni newid ein henw o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i Senedd Cymru, neu'r Senedd yn fwy cyffredin, ar 6 Mai 2020.

## **Tasg 1:** Fideo llinell amser

**Oeddet ti'n gwybod?** Ystyr datganoli yw trosglwyddo pwerau. Er enghraifft, mae Senedd y DU yn deddfu mewn meysydd penodol sy'n effeithio ar bedair gwlad y DU fel mewnfudo, yr heddlu, budd-daliadau a mwy. Gwneir penderfyniadau am y rhan fwyaf o bethau eraill, fel iechyd, addysg a'r amgylchedd yn y Senedd, ac mae'r penderfyniadau hynny'n benodol i Gymru.
Gweler Adran B yn y llyfryn hwn.

Dewch inni deithio yn ôl mewn amser i ddysgu rhagor am hanes democratiaeth yng Nghymru. Mae gennym ni fideo wedi'i hanimeiddio'n llawn sy'n egluro hanes y Senedd a sut mae'n gweithio. Mae'r fideo yn rhan o adnoddau ar-lein Ein Senedd Ni sydd ar gael ar Hwb. Galli di wylio hwn fel dosbarth, ar dy ben dy hun neu gyda dy ffrindiau neu dy deulu a chymryd rhan yn Nhasg 2 yr adran hon i roi prawf ar dy wybodaeth mewn cwis ar Kahoot!

Galli di ddod o hyd i'r fideo drwy chwilio am 'Ein Senedd Ni' ar YouTube. Mwynha!

Gan ddefnyddio'r hyn rwyt ti wedi'i ddysgu o wylio'r fideo, cer i Dasg 2 yn yr adran hon i herio dy hun faint alli di ei gofio am hanes y Senedd.

**Oeddet ti'n gwybod?** Adeiladwyd y Senedd yn 2006. Cyn hynny, roedd yr Aelodau yn cynnal eu cyfarfodydd yn Siambr Hywel sydd y tu ôl i'r Senedd heddiw ac sydd wedi'i enwi ar ôl Hywel Dda – fe gewch chi ragor o wybodaeth amdano ef ar ddechrau'r fideo.



# **Adran A:** Hanes y Senedd

## **Tasg 2:** Cwis ar Kahoot!

Gan ddefnyddio'r hyn rwyt ti wedi'i ddysgu o wylio'r fideo animeiddiedig yn Nhasg 1, cymra ran yn ein cwis ar Kahoot! drwy gopïo'r linc isod i dy borwr. Y cyfan fydd ei angen arnat ti yw dyfais electronig sydd wedi'i chysylltu â'r rhyngrwyd, fel ffôn, llechen neu liniadur.

- **bit.ly/our-senedd-quiz**

- **bit.ly/cwis-ein-senedd-ni**

Galli di gymryd rhan yn y cwis hwn fel dosbarth, ar dy ben dy hun, neu gyda dy ffrindiau neu dy deulu. Cofia, po gyflymaf y byddi di'n ateb, yr uchaf fydd dy sgôr di!

**Oeddet ti'n gwybod?** Cyn i'r gyfraith newid ar 6 Mai 2020, arferai Aelodau o'r Senedd gael eu galw'n Aelodau'r Cynulliad a'r enw ar Senedd Cymru oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

# Adran B:
# Pwerau'r Senedd


## Tasg 1: Oeddet ti'n gwybod?


Mae'r Senedd yn gyfrifol am wneud cyfreithiau yng Nghymru ar lawer o faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl – mae'r syniadau ar gyfer cyfreithiau newydd fel arfer yn dod gan Lywodraeth Cymru, ac mae angen i fwyafrif o Aelodau o'r Senedd bleidleisio o'i blaid cyn y gall ddod yn gyfraith yng Nghymru.


**Oeddet ti'n gwybod?** Ystyr datganoli yw trosglwyddo pwerau. Er enghraifft, mae Senedd y DU yn gwneud cyfreithiau mewn rhai meysydd ond gall y Senedd wneud ei phenderfyniadau ei hun a chreu cyfreithiau sy'n benodol i Gymru.

**Gweithgaredd:** Gall y Senedd wneud cyfreithiau ar y materion a restrir yn y tabl isod. Gan ddefnyddio'r eiconau, ysgrifenna isod pa fater rwyt ti'n meddwl y maen nhw'n ei gynrychioli. Fe gei di 5 pwynt am bob eicon cywir! Faint o bwyntiau alli di eu cael allan o 45? Beth am gael cystadleuaeth gartref!

**Atebion:** (O'r chwith uchaf i'r dde isaf) Bwyd, iechyd, addysg a hyfforddiant, twristiaeth, priffyrdd a thrafnidiaeth, tai, diwylliant, yr amgylchedd, chwaraeon a hamdden.





# **Adran B:** Pwerau'r Senedd

## **Tasg 2:** Mapio fy ardal i

Os wyt ti wedi gwneud Tasg 1 yn Adran A, fe fyddi di nawr yn gwybod bod y Senedd yn gallu gwneud cyfreithiau ar lawer o faterion sy'n effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd fel:

| | | |
|---|---|---|
| **Amaethyddiaeth** | **Yr amgylchedd** | **Chwaraeon a hamdden** |
| **Henebion ac adeiladau hanesyddol** | **Gwasanaethau tân ac achub a diogelwch rhag tân** | **Priffyrdd a thrafnidiaeth** |
| **Diwylliant** | **Bwyd** | **Cynllunio gwlad a thref** |
| **Addysg a hyfforddiant** | **Iechyd** | **Y Gymraeg** |

Ar gyfer Etholiadau'r Senedd, mae Cymru wedi'i rhannu'n 40 ardal lai o'r enw etholaethau a 5 ardal fwy o'r enw rhanbarthau. Mae pobl sy'n byw mewn etholaethau yn cael eu galw'n etholwyr.

**Gweithgaredd:** Meddylia am yr ardal lle'r wyt ti'n byw, beth wyt ti'n ei hoffi fwyaf amdani? Oes yna unrhyw beth y gellid ei wella? Efallai bod problem yn dy ardal leol yr hoffet ti iddi gael sylw? Dilyna'r canllawiau cam wrth gam hyn i dy helpu i fapio dy ardal di!

- **Bydd angen ychydig o bapur, pennau a phensiliau lliw a nodiadau gludiog (sticky notes) os ydyn nhw ar gael.**

- **Marcia ar y map ble'r wyt ti'n byw.**

- **Meddylia beth sydd ar gael yn dy ardal di, fel ysgolion, siopau, canolfannau chwaraeon, adeiladau crefyddol, theatrau, sinemâu, traethau, ystadau tai, ysbytai, trafnidiaeth fel bysiau neu drenau, biniau ailgylchu ac ati. Beth am ddefnyddio dy ffôn neu dy lechen i edrych beth sydd ar gael yn dy ardal di. Efallai y cei di dy synnu!**

- **Dechreua fapio dy ardal leol trwy dynnu llun neu farcio safle pethau (paid ag anghofio ei liwio).**

- **Ar ôl i ti wneud hyn, dewisa ben/pensil lliw arall neu nodyn gludiog i nodi'r isod ar dy fap.**

**1.**Rho gylch o amgylch y pethau rwyt ti'n eu hoffi fwyaf am dy ardal leol

**2.** Tynna lun neu ysgrifenna yr hyn y gellid ei wella i wneud dy ardal leol yn lle gwell i'r rhai sy'n byw yno neu'n ymweld â hi [fel rhagor o fannau gwyrdd, parc sglefrfyrddio, gwell cysylltiadau trafnidiaeth fel gorsaf drenau, mwy o finiau ailgylchu ar y strydoedd]

**3.** Oes yna unrhyw broblemau yn dy ardal leol yr hoffet ti eu gweld yn cael sylw? Ble mae'r problemau hyn? [fel sbwriel yn y parciau, gangiau o bobl yn hel o amgylch siopau, dim digon o lonydd beicio, ceir cyflym ar ffordd hir heb unrhyw dwmpathau yn y ffordd i'w harafu]

**Rhanna dy syniadau gyda dy ffrindiau neu dy deulu! Oes yna unrhyw beth y gallan nhw ei ychwanegu at dy fap di?**

**Oeddet ti'n gwybod?** Galli di gysylltu â dy Aelod o'r Senedd am dy ardal leol. Os yw hyn yn rhywbeth yr hoffet ti ei wneud, cer ymlaen i Adran C.

Galli di ddarganfod pwy yw dy Aelod o'r Senedd trwy glicio ar y linc: **Senedd.cymru/aelodau**

# **Adran C:** Aelodau o'r Senedd

Mae Aelodau o'r Senedd yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn deddfu ar gyfer Cymru, ac yn cadw llygad ar waith Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys Gweinidogion sy'n gyfrifol am feysydd fel ysgolion, yr amgylchedd, chwaraeon a thai, a'r Prif Weinidog, sef arweinydd y Llywodraeth.

> Mae'r Senedd yn cynnwys 60 Aelod o'r Senedd. Mae gan bawb yng Nghymru 5 Aelod sy'n eu cynrychioli, sef 1 aelod etholaethol a 4 aelod rhanbarthol.
>
> **Etholaeth:** Dy ardal leol di
>
> **Rhanbarth:** Ardal mwy o faint sydd hefyd yn cynnwys dy etholaeth di (fel Gogledd Cymru)

## **Tasg 1:** Cysylltu â dy Aelod o'r Senedd

Mae Aelodau o'r Senedd yn ystyried, yn dadlau, ac yn pleidleisio ar gyfreithiau sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru ac ar yr arian sy'n cael ei wario ganddi. Maen nhw hefyd yn gwneud awgrymiadau ar y camau y gellid eu cymryd i wneud Cymru yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi. Galli di gysylltu â dy Aelod o'r Senedd ynghylch pethau sy'n dy boeni.  Gallai'r rhain fod yn bethau sy'n effeithio ar y wlad gyfan, neu'n bethau yn dy ardal leol, fel parc sglefrfryddio yn cau neu ormod o dai yn cael eu codi ar fannau gwyrdd a hynny'n effeithio ar dy amgylchedd lleol ac ar fywyd gwyllt.

Galli di ddarganfod pwy yw dy Aelod trwy glicio ar y linc fel y soniwyd yn Adran B:  **senedd.cymru/aelodau**

> Mae **Senedd Cymru** yn gorff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.
>
> **Llywodraeth Cymru**  yw'r llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru. Mae'n cael ei ffurfio ar ôl etholiad ac mae'n cynnwys un blaid wleidyddol neu glymblaid o bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Maen nhw'n cynnig syniadau ar gyfer cyfreithiau, ac yn gwneud penderfyniadau ar sut i wario tua £17 biliwn y flwyddyn ar faterion fel addysg, gofal iechyd, yr amgylchedd, diwylliant ac iaith a thrafnidiaeth.


Yn ogystal ag Aelodau o’r Senedd, mae yna hefyd amrywiaeth o rolau yn y Senedd a Llywodraeth Cymru gan gynnwys:

**Y Llywydd:** cadeirydd y Senedd a’r Cyfarfod Llawn
**Y Prif Weinidog:** arweinydd Llywodraeth Cymru
**12 Gweinidog gan gynnwys:** Iechyd, Addysg, yr Amgylchedd, y Gymraeg, Cyllid, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Fel etholwr, galli di gysylltu ag Aelodau o’r Senedd ynghylch materion sy’n cael eu penderfynu yng Nghymru, ar gyfer Cymru.  Beth am ddefnyddio dy fap i ddweud wrth dy Aelod o’r Senedd beth yw dy farn di am dy ardal!

Os nad wyt ti wedi creu map, mae ffordd arall o gysylltu â dy Aelod o’r Senedd i roi gwybod iddo am dy ardal leol.

**Gweithgaredd:** Os oes gennyt gyfrifiadur neu liniadur, beth am greu cyflwyniad PowerPoint ar gyfer dy Aelod o’r Senedd yn egluro beth rwyt ti’n ei hoffi, a beth rwyt ti’n meddwl ddylai newid yn dy ardal leol. Mae gan bob Aelod o’r Senedd ei gyfeiriad e-bost ei hun, a galli di gael hwnnw ar-lein. Paid ag anghofio rhoi paragraff o eglurhad yn dy e-bost pan fyddi di’n anfon y map at dy Aelod lleol.



**At: [Mewnosod cyfeiriad e-bost Aelod o’r Senedd]**
**Testun: Etholwr ym Mhort Talbot**

Bore da / Prynhawn Da [nodwch enw’r Aelod o’r Senedd],

Rwy’n cysylltu â chi fel un o etholwyr Port Talbot. Yn ddiweddar, rwyf wedi llunio rhestr o bethau am yr ardal leol sy’n gadarnhaol a rhai pethau y gellid eu gwella. Gan mai chi yw’r Aelod o’r Senedd dros fy ardal i, roeddwn i eisiau dwyn hyn i’ch sylw.

Ar hyn o bryd, mae yna lawer o sbwriel ar draeth Aberafan nad yw’n dda i’r amgylchedd nac i’r bywyd gwyllt lleol. Ar ôl mapio’r ardal, rydw i wedi sylwi nad oes digon o finiau ger y traeth a allai helpu i ddatrys y broblem hon. Rwy’n credu y byddai’n syniad da cael rhagor o finiau i helpu gyda’r llygredd plastig yn yr atyniad lleol.

Hefyd, er bod digon o lwybrau beicio ym Mhort Talbot, nid yw marciau’r llwybrau mor glir â’r hyn roedden nhw’n arfer bod. Gan fy mod i’n feiciwr, rwy’n credu y byddai’n syniad da ail-beintio rhai o’r llwybrau beicio yn yr ardal yn enwedig yn ymyl siopau Baglan i helpu i wneud y lle yn fwy diogel i feicwyr.

Mae Parc Margam yn atyniad da iawn i ddenu ymwelwyr i’r ardal ac rwy’n mwynhau ymweld â’r parc gyda fy nheulu yn ystod y gwyliau. Mae yno hefyd ganolfan ddarganfod y mae fy ysgol i, sef Ysgol Bae Baglan, yn ymweld â hi i ddysgu yn yr awyr agored.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych am y materion yr wyf wedi dwyn eich sylw atynt.

Yn gywir,
Bethan Williams

# **Adran C:** Aelodau o'r Senedd

## **Tasg 2:** Ysgrifennu deiseb

Fel etholwr ardal yng Nghymru, gallwch ysgrifennu at y Senedd a chychwyn deiseb ar faterion y mae gan y Senedd hawl i basio cyfreithiau arnyn nhw yng Nghymru. Mae yna bwyllgor o'r enw'r 'Pwyllgor Deisebau' sy'n cynnwys pedwar Aelod o'r Senedd sy'n ystyried y deisebau a gyflwynir.

**Oeddet ti'n gwybod? ?** Mae pob deiseb gyda mwy na 50 llofnod yn cael ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau. Mae deisebau gyda mwy na 5,000 o lofnodion yn cael eu hystyried ar gyfer dadl yn y Senedd.

## Sut mae ysgrifennu deiseb?

Mae deisebau da yn dweud yn glir beth maen nhw am i'r Senedd neu Lywodraeth Cymru ei wneud.

**Dyma rai enghreifftiau da:**

- **Gwahardd Defnyddio Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau**
- **Gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd yng Nghymru i 16 oed.**

Mae'r enghreifftiau hyn yn dweud yn glir beth rydych chi eisiau i ni ei wneud

**Enghreifftiau gwael:**

- **Helpu pobl ifanc**
- **Trenau**

Nid yw'r enghreifftiau hyn yn dweud yn glir beth rydych chi eisiau i ni ei wneud

**Gweithgaredd:** Ysgrifenna dy ddeiseb dy hun

Gan ddefnyddio'r blwch isod, a dim mwy na 100 o nodau cyfrifiadurol, beth am ymarfer ysgrifennu deiseb i'w hanfon i'r Senedd.
Fe gei di ragor o wybodaeth am ddeisebau yng Nghymru ar ein gwefan:
**deisebau.senedd.cymru**

Cofia'r pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud wrth ysgrifennu deiseb. Os oes angen i ti atgoffa dy hun, cer yn ôl i ddechrau Tasg 2, Adran C.

**Oeddet ti'n gwybod?** Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i basio Deddf yn codi tâl am fagiau plastig untro. Ysbrydolwyd y ddeddf hon gan ddeiseb i wahardd pob bag plastig untro.



# **Adran D:** Defnyddio dy lais

## **Tasg 1:** Gwneud dy ddeiseb yn fyw

Gan ddefnyddio'r ddeiseb y gwnest ti ei hysgrifennu yn Nhasg 2, Adran C y llyfryn hwn, beth am gymryd y cam nesaf a gwneud y ddeiseb hon yn fyw?

Galli di weld y deisebau byw cyfredol ar ein gwefan: :
**deisebau.senedd.cymru**

### Sut mae gwneud fy neiseb yn fyw?

- Cer i'r dudalen 'dechrau deiseb' ar ein gwefan: **deisebau.senedd.cymru**
- Gan ddefnyddio'r blwch 'Beth ydych chi am i ni ei wneud?', rho dy destun, sydd ddim mwy na 100 o nodau cyfrifiadurol, yn y blwch. Bydd angen i ti sicrhau dy fod wedi egluro'n glir yr hyn yr hoffet ti ei weld yn cael ei newid yng Nghymru i'w wneud yn lle gwell.
- Bydd gwefan y ddeiseb yn edrych a oes deiseb debyg yn bodoli eisoes. Os felly, efallai na fyddi di'n gallu mynd ymlaen i'r cam nesaf, ond beth am lofnodi deiseb debyg i'w helpu i gael ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau neu yn y Senedd.
- Byddi di yn symud ymlaen i'r adran 'cefndir'. Defnyddia'r adran hon i ddweud pam rwyt ti eisiau i rywun wneud rhywbeth. Mae rhai pobl yn cynnwys stori bersonol yma.
- Mae'r blwch 'manylion ychwanegol' yn rhoi lle a chyfle i ti roi rhagor o wybodaeth gefndir, tystiolaeth a chyfeiriadau. Mae hon yn ffordd dda o wneud dy ddeiseb yn fwy pwerus.
- Penderfyna am ba hyd yr hoffet ti gasglu llofnodion – cei ddewis rhwng 30 diwrnod a 6 mis.
- Llofnoda dy ddeiseb. Clicia 'parhau' i orffen dy ddeiseb.
- Bydd dy ddeiseb dithau yn fyw yn fuan! Pan fydd dy ddeiseb yn fyw galli di rannu'r linc ar y cyfryngau cymdeithasol i annog pobl i'w llofnodi.

**Cofia fod pob deiseb sydd â mwy na 50 llofnod yn cael ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau. Mae deisebau gyda mwy na 5,000 o lofnodion yn cael eu hystyried ar gyfer dadl yn y Senedd.**

SENEDD IEUENCTID CYMRU

WELSH YOUTH PARLIAMENT

# **Adran D:** Defnyddio dy lais

## **Tasg 2:** Senedd Ieuenctid Cymru

Er ei bod yn bosibl i bobl ifanc leisio barn ar waith y Senedd trwy gysylltu â'u Haelodau, neu trwy ddechrau neu lofnodi deiseb, lansiwyd Senedd Ieuenctid Cymru i roi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru ddweud eu dweud.

Yn yr un modd ag Aelodau o'r Senedd, mae 40 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn cynrychioli etholaethau, ond mae'r 20 sy'n weddill yn cael eu hethol mewn ffordd wahanol. Bob tymor, mae Senedd Ieuenctid Cymru yn ffurfio partneriaethau gydag elusennau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn eu cefnogi. Mae 20 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn dod o'r sefydliadau partner hynny, gan sicrhau bod yr Aelodau'n amrywiol, ac yn cynrychioli cymaint â phosibl o bobl ifanc yng Nghymru.

Edrycha ar ein gwefan neu dilyna ni ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddi di'n gallu darganfod:

- **Pwy sy'n dy gynrychioli di**
- **Yr hyn y mae'r Aelodau sy'n dy gynrychioli di yn sefyll drosto**
- **Beth yw blaenoriaethau Senedd Ieuenctid Cymru y tymor hwn**
- **Pa waith mae Aelodau a Phwyllgorau Senedd Ieuenctid Cymru yn ei wneud.**

**Cymryd rhan**
Galli di fynegi barn ar waith Senedd Ieuenctid Cymru trwy gymryd rhan mewn ymgyngoriadau neu fynd i ddigwyddiadau – ar-lein ac yn y gymuned. Beth am edrych ar-lein i gael rhagor o wybodaeth am unrhyw ymgyngoriadau sydd ar agor ar hyn o bryd, neu ddysgu rhagor a chofrestru ar gyfer digwyddiadau Senedd Ieuenctid Cymru.

**Efallai mai ti fydd nesaf!**
Wyt ti rhwng 11 ac 18 oed? Oes gen ti ddiddordeb mewn gwneud gwahaniaeth? Mae etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru yn cael eu cynnal bob 2 flynedd. Bydd gwybodaeth ar-lein mewn da bryd am gofrestru, pleidleisio, neu sefyll fel ymgeisydd. Gwna'n siŵr dy fod ti'n cael y wybodaeth ddiweddaraf.